# Adroddiad Blynyddol 2018/19

# Cyng. Paul J Rowlinson

# Plaid Cymru

# Ward Gerlan



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

## Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Bethesda.  Yma byddaf yn eu hysbysu am ddigwyddiadau yn y Cyngor Sir a thrafod materion eraill o bwys
- Cynorthwyo Cyngor Cymuned Bethesda a Phartneriaeth Ogwen gyda'r cynlluniau i godi maes parcio yn Gerlan
- Trafod gyda Swyddogion ar ran yr etholwyr / cynghori ar ystod eang o faterion gan gynnwys adeiladau gwag; biniau; biniau halen; bysiau; casgliadau gwastraff; cyflwr pont; gylïau wedi eu blocio; lleihau perygl o lifogydd; llwybrau cyhoeddus; materion cynllunio; parcio; pibellau dŵr wedi torri; gwaredu gwastraff slei bach; tai; torri gwair; traffig; tyllau yn y ffyrdd a.y.y.b
- 'Rwyf yn cyfathrebu â phobl Gerlan o bryd i'w gilydd trwy fy nhudalen Facebook, sef: https://www.facebook.com/paulrowlinson.gerlan/ ac, ar y cyd â chynghorwyr Sir eraill Dyffryn Ogwen, ar https://www.facebook.com/CynghorwyrDyffrynOgwen/
- Rwyf wedi siarad â disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen am waith Cynghorydd Sir
- Rwyf wedi cynnal cymhorthfa ar y cyd gyda'r Aelod Seneddol.
- Rwyf yn gwasanaethu fel Is-gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid
- 'Rwyf yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Llanllechid
- 'Rwyf yn Ysgrifennydd a Thrysorydd Balchder Bro Ogwen, gan drefnu nifer o sesiynau hel ysbwriel, plannu bylbiau a llwyni a gosod basgedi crog
- 'Rwyf hefyd yn aelod o Fwrdd Ynni Ogwen Cyf, gan helpu i redeg yr hydro cymunedol
- 'Rwyf yn cynrychioli'r Cyngor ar Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
- 'Rwyf yn cynrychioli'r Cyngor ar Gyngor Llyfrau Cymru
- 'Rwyf yn cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Mantell Gwynedd

# Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

- Cyfarfod Grŵp Cyswllt Sector Wirfoddol a Chyngor Gwynedd (3)
- Gweithdy Cynllun Twf
- Cyfarfod briffio Canolfan Cefnfaes a'r Llyfrgell
- Gweithgor Gwella Rheolaethau
- Gweithgor Canolfan Digartrefedd
- Cyfarfod Herio Perfformiad Economi a Chymuned (2)
- Cyfarfodydd Ymchwiliad Craffu i Effaith Adeiladau Newydd ar Safonau Addysg (3)
- Gweithdy Cynllun Asedau
- Bwrdd Craffu Addysg Ardal Arfon (2)
- Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth Ynghylch y Daith Diwygio Addysg
- Cynhadledd Cais Twf Gogledd Cymru
- Gweithdy Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
- Cyd-gyfarfod Fforwm Craffu a'r Cabinet (3)
- Pwyllgor Cyswllt Chwarel y Penrhyn (2)
- Gweithdy Blaenoriaethu Asedau
- Cyflwyniad ar Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2019-20
- Gweithdy Arbedion (2)
- Sesiwn Briffio Brexit
- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (4)
- Pwyllgor Lleol Gwynedd y Cyngor Iechyd Cymuned (6)
- Cyngor Llyfrau Cymru
- Bwrdd Rheoli Mantell Gwynedd (4)

| | |
|---|---|
| Delio Gyda'r Wasg | 19/03/2019 |
| Powerpoint | 31/01/2019 |
| Cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio | 16/01/2019 |
| Gofalu am ein Hamgylchedd | 28/11/2018 |
| WELSH LEADERSHIP ACADEMY (Aelodau Etholedig) / Academi Arweinyddiaeth : Meithrin Medrau Arwain (6 diwrnod) | Cychwyn ar 23/11/2018 |
| YGC : Effaith Newid Hinsawdd ar Gymunedau Gwynedd | 21/11/2018 |
| Diogelu Plant ac Oedolion (2018) | 19/09/2018 |
| Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi | 11/07/2018 |
| Llinellau Ffôn Uniongyrchol (Gangiau Cyffuriau Cyfundrefnol) | 27/06/2018 |